**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, 30 TACHWEDD 2023**

**Presenoldeb:**

**Y CYNGHORWYR:** Elin Hywel (Cadeirydd)
Annwen Hughes (Is-gadeirydd)

Stephen Churchman, Glyn Daniels, Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths, Gwilym Jones, Linda Morgan, Edgar Owen, Llio Elenid Owen, Beca Roberts, Elfed P. Roberts, Peter Thomas, Rhys Tudur a Gruffydd Williams.

**Swyddogion yn bresennol:**
Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu), Rhodri Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth), Ellie Evans (Cynorthwywr Gweinyddol Gwasanaeth Democratiaeth) a Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol).

**Yn bresennol ar gyfer Eitem 5:**
Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Arweinydd y Cyngor), Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Bethan Richardson (Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd) a David Mark Lewis (Rheolwr Ynni a Gwasanaethau Masnachol)

**Yn bresennol ar gyfer Eitem 6:**
Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Aelod Cabinet Priffyrdd, Peirianneg a YGC), Steffan Jones (Pennaeth Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC), Emlyn Jones (Pennaeth Cynorthwyol Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC), Rob Williams (Rheolwr Gwasanaeth Dŵr ac Amgylchedd) a Rhydian Roberts (Prif Beiriannydd)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorwyr Kim Jones, Arwyn Herald Roberts a Rob Triggs.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 05 Hydref 2023, fel rhai cywir.

## 5. CYNLLUN ARGYFWNG HINSAWDD A NATUR: ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022/23

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Weithredwr. Tynnwyd sylw yn fras at y prif bwyntiau canlynol:

Atgoffwyd yr Aelodau bod Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yn un o flaenoriaethau Cynllun y Cyngor, gyda Bwrdd wedi ei sefydlu i'w gefnogi.

Tynnwyd sylw bod y cynllun yn cynnwys dau gam. Manylwyd mai'r cam cyntaf oedd gweithredu prosiectau'r Cyngor er mwyn lleihau'r defnydd o ynni a lleihau allyriadau carbon y Cyngor ac mai'r ail gam fyddai edrych ar yr effaith ehangach ar y sir gan ystyried sut gall y Cyngor helpu cymunedau a sut gellir ymateb fel sir i effaith newid hinsawdd.

Eglurwyd bod delio gydag argyfwng hinsawdd a natur yn rhan o waith y Cyngor ers 2005/06 a nodwyd bod llwyddiant mawr i'w gweld erbyn hyn. Manylwyd bod 51% yn llai o allyriadau carbon yn y maes Adeiladau rhwng 2005/06 a 2019 a bod 23% o allyriadau carbon yn y maes Fflyd o fewn yr un cyfnod. Adroddwyd bod y Cyngor wedi llwyddo i leihau allyriadau carbon y Cyngor 43% o fewn y cyfnod hwn.

Nodwyd bod y Cyngor yn gweld buddion ariannol wrth daclo argyfwng hinsawdd a natur, gan arbed £15miliwn ers 2010. Pwysleisiwyd y golygai hyn y buasai angen gwneud mwy o doriadau yn sgil sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor os na fuasai'r gwaith ar yr argyfwng newid hinsawdd a natur wedi cael ei gyflawni. Cydnabuwyd bod ystyriaethau newydd i'w hystyried erbyn hyn megis heriau maes caffael yn ogystal â'r ffaith bod mwy o weithlu'r cyngor yn gweithio o adref.

Mynegwyd pryder am y dull o gyfrifo allyriadau carbon yn deillio o gaffael yn genedlaethol. Esboniwyd bod prynu nwyddau lleol yn cael ei gyfrifo yn yr un modd a phrynu nwyddau o'r cyfandir, er bod gwahaniaethau mawr yn y gwir allyriadau carbon. Nodwyd bod modd i hyn effeithio ar economi leol mewn ardaloedd gan nad oes anogaeth i brynu'n lleol. Eglurwyd bod y drefn wedi ei mireinio dros y ddwy flynedd diwethaf gan arwain at ostyngiad yn allyriadau carbon y Cyngor. Nodwyd y trosglwyddir neges gyson i Lywodraeth Cymru nad yw'r dull cyfrifo yn y maes caffael yn adlewyrchu'r gwir sefyllfa. Pryderwyd na fydd modd cyrraedd targedau o fod yn garbon niwtral erbyn 2030 os na fydd y dull cyfrifo hwn yn cael ei ddiwygio.

Cadarnhawyd bod y Cyngor yn barod i edrych ar gam dau'r Cynllun, sef i edrych ar gynlluniau ar gyfer y dyfodol. Soniwyd mai cam cyntaf y cynllun oedd lleihau'r allyriadau carbon, ac felly rhaid sicrhau trefniadau hir dymor er mwyn i'r ffigyrau allyriadau hyn aros yn isel. Eglurwyd bod y datblygiadau hyn yn cael eu gweithredu o fewn y prif themâu canlynol:

- Adeiladau ac ynni
- Symud a thrafnidiaeth
- Gwastraff
- Llywodraethu
- Caffael
- Defnydd tir
- Ecoleg

Manylwyd ar rhai o'r themâu gan roi enghreifftiau o brosiectau cysylltiedig. Cyfeiriwyd at brosiect paneli solar o fewn y maes adeiladau ac ynni gan nodi bod hyn yn faes mae'r Cyngor wedi buddsoddi ynddo eisoes a bod £500k o arbedion wedi eu creu yn sgil y prosiect. Nodwyd bod £2.8miliwn pellach wedi cael ei fuddsoddi yn y maes yn ddiweddar. Adroddwyd ar gynllun i ddiweddaru fflyd y Cyngor, fel rhan o thema 'Symud a thrafnidiaeth' i gerbydau trydan. Nodwyd camgymeriad yn Adran 6 o'r adroddiad bod 16 pwynt gwefru dros 4 lleoliad i ddefnydd y cyhoedd, pwysleisiwyd mai at ddefnydd fflyd y Cyngor mae'r rhain a bod nifer o bwyntiau gwefru ar gael i'r cyhoedd mewn sawl lleoliad ar draws y sir. Gobeithiwyd byddai modd plethu'r ddau brosiect yma gyda'i gilydd yn y dyfodol.

Nododd aelod bod yr adroddiad yn fanwl, yn ddiddorol ac i'w ganmol ond bod gwelliannau posib i'w gwneud. Manylodd ar ei bryderon ynglŷn â bod yn or-ddibynnol ar egni trydan gan ystyried bod nifer o bethau yn gallu effeithio arno megis prisiau defnyddio pwyntiau gwefru cyhoeddus o gymharu â chyflenwad domestig, ac effeithiolrwydd paneli solar ym misoedd y gaeaf. Cyfeiriodd at y tabl ar dudalen 5 yr adroddiad blynyddol, gan dynnu sylw nad oedd unrhyw golofn gyferbyn â 'Symud a Thrafnidiaeth' wedi ei farcio i ddangos cyswllt y prosiect i amcanion Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Nododd bod materion gan gynnwys allyriadau carbon yn golygu bod cyswllt ag amcanion Adran 6 y Ddeddf.

Cyfeiriodd at flaenoriaeth tymor canolig 'Uwchraddio goleuadau arbenigol mewn canolfannau hamdden er mwyn defnyddio llai o ynni' o dan y pennawd 'Adeiladau ac Ynni'. Holodd os ystyriwyd gwneud hyn yn adeiladau eraill y Cyngor. Tynnodd sylw at flaenoriaeth parhaus 'Rhwystro gor-ddatblygu cynlluniau ynni tanwydd ffosiledig'. Holodd pam y nodir 'gor-ddatblygu' yn hytrach na chynlluniau ynni di-ffosil neu dim cynlluniau ffosil na ellir eu cyfiawnhau.

Cyfeiriodd at y sylw o dan y pennawd 'Ynni Adnewyddol' ar dudalen 23 yr adroddiad blynyddol - 'Yn anffodus, nid oes cydnabyddiaeth yn cael ei roi i ni fel sefydliad os ydym yn cynhyrchu trydan i'w allforio i'r grid ac nid ydym yn gallu hawlio'r credyd carbon amdano.' Nododd tra'n cydnabod ei fod yn fater tu allan i reolaeth y Cyngor bod cyfle drwy gynhyrchu ac allforio trydan i'r grid cenedlaethol i ddadlau y dylai unrhyw drydan a werthir i'r grid gael ei ddefnyddio yn lleol gan roi'r cyfle i gwsmeriaid lleol i'w brynu ar gyfradd is na'r farchnad agored arferol. Eglurodd y byddai'n helpu unigolion mewn tlodi tanwydd ac o help i'r rhai yn dymuno newid o ddefnyddio nwy a glo ond nid ydynt yn gallu ei fforddio. Nododd y byddai'n cyfrannu at y nod o gynorthwyo'r gymuned a dylanwadu ar bobl eraill y tu hwnt i gyfrifoldeb uniongyrchol y Cyngor.

Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd swyddogion:

- Yn rhannu'r pryder o ran gorddibyniaeth ar egni trydan. Roedd y gorddibyniaeth yn gallu effeithio ar chwyddiant a phrisiau.
- Bod symudiad tuag at egni trydan gyda'r gobaith y byddai'r grid cenedlaethol yn rhydd o garbon yn y dyfodol. Dyna'r unig ffordd y gall y Cyngor gyrraedd sero net ond derbynnir bod risgiau ynghlwm â hyn.
- O ran dim cydnabyddiaeth o allforio trydan i'r grid, y sefyllfa yn rhwystredig ond yr hyn a nodir gan y Llywodraeth yw wrth i'r grid fynd yn ddi-garbon bod cydnabyddiaeth yn cael ei roi wrth i'r Cyngor brynu'n ôl.
- Bod bwriad i uwchraddio goleuadau ar draws holl ystâd y Cyngor gyda chynllun peilot goleuadau LED i'w gyflwyno er cymeradwyaeth.
- Derbyn y pwynt bod modd ychwanegu enghreifftiau o sut cyfrannir at amcanion Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, drwy'r prosiectau yn ymwneud â theithio, ac yn benodol o ran teithio llesol.

Holodd aelodau os byddai modd defnyddio egni gwynt neu dŵr/hydro ar dir y Cyngor, megis man-ddaliadau'r Cyngor. Eglurwyd gan y Rheolwr Ynni a Gwasanaethau Masnachol bod paneli solar y Cyngor yn cael eu monitro yn rheolaidd er mwyn canfod faint o egni maent yn ei gynhyrchu ond cydnabuwyd na fyddai modd cynhyrchu egni ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor oni bai fod adeiladau'r Cyngor yn agos ac fe fyddai rhaid ei werthu i'r grid cenedlaethol. Er hyn, cadarnhawyd bod y Cyngor yn edrych ar systemau newydd yn barhaus ac yn agored i ystyriaethau posibl oherwydd yr angen cynyddol i gynhyrchu pŵer.

Holodd aelod am ddatblygiadau yn y maes hydrogen. Mewn ymateb, nododd y Prif Weithredwr bod gwaith pellach wedi ei gomisiynu gan y Bwrdd Newid Hinsawdd a Natur i edrych ar sefyllfa'r Cyngor ac ar ddatblygiadau yn y maes hwn.

Cyfeiriodd aelod at wybodaeth o ran tarddiad defnydd o ynni ar ddiwrnod penodol ar wefan y Grid Cenedlaethol. Nododd bod tanwydd ffosil yn gyfrifol am 62%, niwclear am 12%, Biomas am 8% ac ynni adnewyddol am 13% o gynnyrch trydan ar y diwrnod perthnasol. Cwestiynodd sut byddai'r Cyngor yn cyrraedd sero net erbyn 2030 a beth fyddai oblygiadau cyrraedd sero net. Nododd mai defnyddio mwy o lo oedd y ffordd ymlaen, cyfeiriodd at wledydd megis China, India a'r Almaen a oedd yn cynyddu defnydd ohono.

Trafodwyd y pwysigrwydd o sicrhau bod swyddogion pwrpasol yn delio gyda materion newid hinsawdd a natur a diolchwyd i Reolwr Rhaglen Newid Hinsawdd am ei gwaith gyda'r cynllun. Pwysleisiwyd yr angen i sicrhau nad yw gwaith swyddogion o fewn y maes hwn yn cael ei golli wrth i'r Cyngor wynebu toriadau ariannol a bod cyfrifoldeb am y cynllun ddim yn cael ei basio ymlaen i swyddogion sy'n gweithio y tu hwnt i'r maes, fel rhan o'u cyfrifoldebau. Nodwyd bod arbenigedd yn y maes hwn yn y Cyngor a bod angen ystyried cyfleoedd i gynnig gwasanaeth ymgynghorol ar gyfer sefydliadau eraill a chreu incwm o ganlyniad.

Tynnwyd sylw at deitlau 'Beth y gwnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2022/23' a 'Be wnaethom ni' yn Adrannau 5-11 gan nodi bod y wybodaeth yn gallu ymddangos yn aneglur yn y rhannau hyn. Nodwyd y dylid ystyried addasu ffurf arddangos y wybodaeth er eglurder i'r darllenydd.

Cadarnhawyd byddai'r sylwadau a gyflwynwyd fel rhan o'r drafodaeth yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet wrth gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol iddynt ar 19 Rhagfyr. Nodwyd y bwriad i gyflwyno adroddiad blynyddol arall i'r Pwyllgor hwn yn y flwyddyn nesaf.

**PENDERFYNWYD:**

1. **Derbyn yr adroddiad gan argymell:**

   **(i) Dylid ychwanegu gwybodaeth am 'Teithio Llesol' o dan Adran 3 yr Adroddiad: 'Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016'.**

   **(ii) Dylid ystyried addasu ffurf arddangos y wybodaeth o dan y teitlau 'Beth y wnaethom ddweud y byddem yn ei wneud yn 2022/23' a 'Be wnaethom ni' yn Adrannau 5-11 yr Adroddiad er mwyn eglurder i'r darllenydd.**

2. **Argymell i'r Cabinet y dylid ystyried yr adnodd staff i gyflawni gweledigaeth y Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur.**

**6. STRATEGAETH LLIFOGYDD LLEOL**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth Gwynedd. Tynnwyd sylw yn fras at y prif bwyntiau canlynol:

Eglurwyd bod Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol yn un o ofynion y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2021 a bod rhaid iddo fod yn gyson â'r Strategaeth Genedlaethol a gyhoeddwyd y llynedd. Adroddwyd ar yr angen i ddiwygio'r Strategaeth er mwyn iddo gyd-fynd â gofynion statudol erbyn gwanwyn 2024.

Cadarnhawyd mai'r 5 prif Amcan o'r Strategaeth ddiwygiedig hon yw:

1. Anelu at leihau lefel y perygl o lifogydd ac erydu arfordirol i drigolion Gwynedd.
2. Datblygu dealltwriaeth bellach o'r perygl llifogydd i Wynedd ac effeithiau newid hinsawdd.
3. Parhau i weithio gyda'r holl gyrff perthnasol i sicrhau datblygiad priodo a chynaliadwy yng Ngwynedd.
4. Codi ymwybyddiaeth o berygl llifogydd ac erydi arfordirol lleol
5. Gweithio ar y cyd â'r holl Awdurdodau Rheoli Perygl eraill a grwpiau/cyrff perthnasol i sicrhau ymateb cyd-gysylltiedig i ddigwyddiadau llifogydd ac erydu arfordirol.

Esboniwyd nad yw'r Strategaeth wedi ei lunio yn ei gyfanrwydd ar hyn o bryd ond bod yr Adroddiad a'r Atodiadau yn dangos y math o wybodaeth bydd y cynllun yn ei gynnwys. Cadarnhawyd bod yr Amcanion wedi cael eu llunio mewn ymateb i heriau sydd i'w gweld yng Ngwynedd. Gwnaed cais i'r Pwyllgor ystyried craffu'r Strategaeth lawn yn dilyn cyfnod o ymgynghori statudol arno.

Nododd aelod ei gefnogaeth i ymgynghori gyda chymunedau sydd mewn ardaloedd ble mae risgiau o lifogydd yn uchel ond bod angen cynnwys cymunedau mewn ardaloedd gyda risg llifogydd eilradd yn ogystal. Cydnabuwyd bod angen i holl drigolion fod yn ymwybodol o'r Strategaeth a sut i ymateb pan fydd llifogydd oherwydd bod rhai ardaloedd yn gallu cael eu hynysu wrth i lifogydd gau lonydd, gan arwain at drafferthion i ofal meddygol, mynediad at siopau a nifer o broblemau eraill. Pwysleisiwyd bod gwahoddiad i bawb gymryd rhan yn yr ymgynghoriad statudol er mwyn sicrhau bod gymaint o wybodaeth a phosibl yn bwydo mewn i'r ddogfen derfynol, a bod systemau mewn lle i rannu gwybodaeth a diogelu trigolion Gwynedd.

Mewn ymateb i ymholiad ar y defnydd o derminoleg feddal megis 'anelu' o fewn dogfennaeth yr adroddiad, cadarnhawyd bod yr iaith hon wedi cael ei ddefnyddio oherwydd cyfyngiadau ar y Cyngor. Cadarnhawyd bod rhai elfennau o fewn y maes yn gyfrifoldeb ar gyrff y tu hwnt i'r Cyngor, ac o dan reolaeth y Llywodraeth ac felly mae'n anodd gosod geirfa gadarn ar hyn o bryd heb ddeall mwy am ddyheadau'r Llywodraeth.

Cydnabuwyd bod pennu cyfrifoldebau ymysg partneriaid wedi bod yn heriol yn y gorffennol ond bod dealltwriaeth wedi ei gyrraedd erbyn hyn wrth i berthynas rhyngddynt ddatblygu. Pwysleisiwyd bydd y strategaeth lawn yn mynd i amlygu cyfrifoldebau'r holl bartneriaid i'r dyfodol. Eglurwyd bod y partneriaid yn mynd tu hwnt i'w cyfrifoldebau mewn sefyllfaoedd argyfyngus.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, nodwyd y cynhelir cyfarfodydd cynllunio argyfwng yn rheolaidd a bod bwriad i gynnal ymarferiad er mwyn sicrhau gwytnwch trefniadau i ymateb i ddigwyddiad llifogydd.

Holodd aelod o ran trefniadau cyllido gwaith yn y maes llifogydd. Mewn ymateb, nodwyd bod y gwaith y gellir ei gyflawni yn ddibynnol ar grantiau. Ymhelaethwyd y byddai newid o ddull ariannu grant penodol i'w gynnwys yn y grant cefnogi refeniw yn golygu byddai effaith ar ddenu grantiau eraill yn y dyfodol.

Anogwyd yr holl aelodau i fynychu'r cyfarfodydd ymgynghori ac annog trigolion eu wardiau i leisio eu barn hefyd. Diolchwyd i'r holl swyddogion am eu gwaith.

**PENDERFYNWYD**

1. **Derbyn yr adroddiad gan argymell:**

**(i) dylid cynnwys gwybodaeth am y risg o ran ffyrdd yn llifogi yn ogystal â'r risg i eiddo yn y Strategaeth Llifogydd Lleol;**

**(ii) dylid codi ymwybyddiaeth holl drigolion o sut i baratoi ar gyfer llifogydd.**

**2. Bod y Pwyllgor yn craffu'r Strategaeth Llifogydd Lleol yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus yn ei gyfarfod ar 22 Chwefror 2024.**

**7. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 2023/24**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan yr Ymgynghorydd Craffu gan nodi'r prif bwyntiau canlynol:

Atgoffwyd yr Aelodau bod Blaenraglen diwygiedig y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar gyfer 2023/24 wedi'i fabwysiadu yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 5 Hydref 2023.

Eglurwyd yr angen i ddiwygio'r blaenraglen ar gyfer 2023/24 ymhellach. Tynnwyd sylw bod yr eitem 'Strwythur Llywodraethant a Threfniadau Cyflawni Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn' wedi ei raglennu ar gyfer y cyfarfod yma ond nid oedd yn amserol i'w ystyried. Nodwyd y derbyniwyd cadarnhad gan Reolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn y byddai'n amserol i gyflwyno'r eitem yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 18 Ebrill 2024. Sicrhawyd byddai hyn yn diwallu'r gofyniad i graffu gwaith y Bwrdd dwywaith o fewn blwyddyn Cyngor.

Adroddwyd bod eitem 'Gwasanaethau Casglu Gwastraff ac Ailgylchu' wedi cael ei raglennu i gyfarfod 18 Ebrill 2024 yn ystod y gweithdy blynyddol eleni. Diweddarwyd mewn cyfarfod rhwng Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor, Aelod Cabinet Amgylchedd a Phennaeth Adran Amgylchedd na fyddai'n amserol i graffu'r eitem hon yn ystod y cyfarfod hwnnw. Ystyriwyd byddai craffu'r eitem yn hwyrach yn y flwyddyn yn caniatáu i ffrydiau gwaith yn y maes hwn ddatblygu ymhellach. Awgrymwyd byddai ail-raglennu'r eitem gan ystyried ei flaenoriaethu yng Ngweithdy Blynyddol 2024/25 ar gyfer cyfarfod cyntaf 2024/25 yn caniatáu'r Pwyllgor i ychwanegu gwerth drwy graffu yn amserol.

Atgoffwyd yr aelodau bod y Pwyllgor yn yr eitem flaenorol wedi penderfynu craffu'r 'Strategaeth Llifogydd Lleol' yng nghyfarfod 22 Chwefror 2024.

Nodwyd y derbyniwyd cadarnhad yn dilyn cyhoeddi rhaglen y cyfarfod, ni fyddai'n bosib cyflwyno adroddiad 'Cyfarwyddyd Erthygl 4 - Ymgynghoriad Cyhoeddus' i gyfarfod y Pwyllgor ar 22 Chwefror 2024. Eglurwyd bod hyn oherwydd bod gwaith sylweddol i'w wneud yn dilyn derbyn 3,900 o ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus.

Rhagwelwyd y byddai'n bosib adrodd i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 18 Ebrill 2024. Awgrymwyd er mwyn hwyluso hyn, y byddai'n opsiwn i dynnu'r eitem 'Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd' o'r blaenraglen ar gyfer 2023/24 gan nad oedd pryder penodol am berfformiad yn y maes hwn. Ychwanegwyd y gellid rhoi ystyriaeth i flaenoriaethu'r eitem ar gyfer 2024/25 yn y Gweithdy Blynyddol.

Nodwyd cefnogaeth i'r bwriad i flaenoriaethu eitemau yn unol â'r uchod.

**PENDERFYNWYD**

**Mabwysiadu rhaglen waith diwygiedig ar gyfer 2023/24.**

Dechreuodd y Cyfarfod am 10:30yb a gorffennodd am 12:15yp

CADEIRYDD